Teitl yr Adroddiad:	Adroddiad Blynyddol: Cytundebau Adran 106 2025/26
Diben yr Adroddiad:	Rhoi gwybod i Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref / Cymuned a'r cyhoedd am y cynnydd ar faterion Adran 106 (Rhwymedigaeth Gynllunio) sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026).
Swyddog Cyfrifol:	Liam Jones, Rheolwr Gweithredol Cynllunio a Rheoli Adeiladu Rhif ffôn: 01446 704724 Lucy Butler, Uwch Gynllunydd Rhif ffôn: 01446 704665 E-bost: planning@valeofglamorgan.gov.uk

Crynodeb Gweithredol:

- Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a'r cyhoedd, ar faterion Adran 106 ym Mro Morgannwg.
- Yn y 12 mis rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, llofnodwyd cyfanswm o 9 o gytundebau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau ariannol y cyfeirir atynt yn y cytundebau cyfreithiol hyn yw £2,171,466.86.
- Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y Cyngor £16,327,104.34 ym mhrif gyfrif Adran 106. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau hyn wedi ymrwymo i gynlluniau ym Mro Morgannwg, fel y cytunwyd gydag Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref / Cymuned a Gwasanaethau, neu maent yn aros am ymgynghoriad pellach. Yn ogystal, daliwyd £378,037.43 ar gyfer costau cynnal a chadw parhaus.
- Derbyniodd y Cyngor gyfraniadau ariannol sy'n cyfateb i £479,309.63 rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.
- Cafodd £1,957,667.23 ei wario ar gynlluniau yn ystod 2025/26, gyda chyfraniadau Adran 106 yn cefnogi cartrefi fforddiadwy newydd, gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, gwelliannau i fannau agored cyhoeddus a chelf gyhoeddus newydd.

1. Cefndir

1.1 Mae gan y Cyngor y grym i lunio cytundebau cyfreithiol gyda datblygwyr dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i fynnu bod datblygwyr yn gwneud gwaith, yn darparu gwasanaethau neu yn gwneud cyfraniadau ariannol i liniaru'r effaith sy'n deillio o'r datblygiad newydd.

1.2 Nodir polisïau'r Cyngor ar dai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Bro Morgannwg (2011-2026) ac yn y dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCAau) Tai Fforddiadwy a Rhwymedigaethau Cynllunio mabwysiedig.

1.3 Mae Polisi CDLl MD4 yn nodi'r polisi trosfwaol ar gyfer gofyn am seilwaith cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio, lle bo hynny'n briodol a chan ystyried hyfywedd datblygu. Mae'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio yn egluro ymhellach ble, beth, pryd a sut y ceir rhwymedigaethau cynllunio, er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i greu cymunedau cynaliadwy sy'n rhoi budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

1.4 Er mwyn sicrhau bod CDLlau yn cael eu diweddaru'n gyson, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu eu Cynllun o leiaf bob 4 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu. Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd i ddisodli'r CDLl mabwysiedig presennol. Enw'r Cynllun newydd fydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) a bydd yn cwmpasu'r cyfnod 2021 – 2036.

1.5 Cymeradwywyd Adroddiad Adolygu gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2022 a oedd yn ystyried effeithiolrwydd y CDLl mabwysiedig ac yn cadarnhau'r weithdrefn adolygu i'w dilyn wrth baratoi'r CDLlN. Cadarnhaodd yr adroddiad fod polisïau'r CDLl mewn perthynas â thai fforddiadwy a seilwaith yn gweithio'n effeithiol ac yn sicrhau lliniaru priodol. Daeth yr Adroddiad Adolygu i'r casgliad y bydd adolygiad y CDLl yn rhoi cyfle i'r Cyngor gynnal adolygiad o hyfywedd datblygu i sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'r dull polisi mwyaf priodol i sicrhau'r ddarpariaeth tai fforddiadwy fwyaf posibl, yn ogystal â seilwaith a chyfleusterau cymunedol, ac i ystyried unrhyw bolisïau newydd posibl mewn perthynas â seilwaith gwyrdd a newid yn yr hinsawdd.

1.6 Ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2026, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y CDLlN Adneuol rhwng 28 Ionawr a 11 Mawrth 2026. Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried y sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori a bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd y CDLlN wedyn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a PCAC ar gyfer Archwiliad Annibynnol. Rhagwelir y bydd Sesiynau Gwrandawiad yn cael eu cynnal yng Ngwanwyn / Haf 2027 gyda mabwysiadu yn ddiweddarach yn 2027.

1.7 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi cynnydd y Cyngor o ran trafod, monitro a gweithredu rhwymedigaethau cynllunio drwy gytundebau Adran 106, ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

2. Materion Allweddol i'w Hystyried

Ceisiadau cynllunio yn amodol ar Gytundebau Adran 106 yn 2025/26

2.1 Yn y 12 mis rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, llofnodwyd cyfanswm o 9 cytundeb cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau ariannol y cyfeirir atynt yn y cytundebau cyfreithiol hyn yw £2,171,466.86. Mae nifer o'r cytundebau cyfreithiol hyn hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau mewn nwyddau.

Gweithredu Rhwymedigaethau Cynllunio yn 2025/26 – Rhwymedigaethau Ariannol

2.2 Mae llawer o gyfraniadau wedi'u cyfyngu gan gytundebau cyfreithiol i ddibenion penodol neu ardaloedd daearyddol a dim ond ar ôl i brosiectau addas gael eu nodi a'u cymeradwyo y gellir eu gwario. Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y Cyngor £16,327,104.34 ym mhrif gyfrif Adran 106. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau hyn wedi ymrwymo i gynlluniau ym Mro Morgannwg, fel y cytunwyd gydag Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref / Cymuned a Gwasanaethau, neu maent yn aros am ymgynghoriad pellach. Yn ogystal, daliwyd £378,037.43 ar gyfer costau cynnal a chadw parhaus. Y cyfanswm yn y cyfrif Adran 106 cyffredinol oedd £16,705,141.77.

2.3 Derbyniodd y Cyngor gyfraniadau ariannol o £479,309.63 rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Derbyniwyd rhandaliadau mawr o'r datblygiad tai fforddiadwy newydd yn yr hen seidins rheilffordd, Ffordd y Mileniwm, y Barri.

2.4 Mae crynodeb o incwm a gwariant ar bob rhwymedigaeth gynllunio rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2025 ynghlwm yn Atodiad B.

2.5 Cafodd £1,957,667.23 ei wario ar gynlluniau yn ystod 2025/26, gyda chyfraniadau Adran 106 yn cefnogi'n llawn (neu'n rhannol) gartrefi fforddiadwy newydd, gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, gwelliannau i fannau agored cyhoeddus a chelf gyhoeddus newydd. Dylid nodi, ar gyfer rhai cynlluniau, bod grantiau amgen fel y Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Teithio Llesol a Grant Tai Cymdeithasol wedi cael eu defnyddio i gefnogi cynlluniau ac i wella'r defnydd o gyllid Adran 106.

2.6 Ceir rhestr gryno isod a gellir gweld detholiad o ffotograffau o gynlluniau yn Atodiad C.

Man Agored Cyhoeddus:

Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfraniadau adran 106 i ddarparu / gwella mannau agored cyhoeddus fel a ganlyn:

- Gofod cymunedol newydd yn Murchfield, Dinas Powys gan gynnwys cwrt pêl-fasged / pêl-rwyd newydd, seddi newydd sy'n ymgorffori nodweddion ymarfer corff, plannu coed a llwyni ychwanegol (cynllun celf gyhoeddus / mannau agored cyhoeddus)
- Adfer y pwll presennol yng Ngerddi Gladstone Isaf, Y Barri
- Gwelliannau i Faes Hamdden Gwenfô
- Gwelliannau ym Mharc Llinellol Sili

- Parc sglefrio newydd yn Bearfield, Y Bont-faen
- Cae Scansis wedi'i Uwchraddio, Bearfield, Y Bont-faen

Trafnidiaeth Gynaliadwy:
Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfraniadau adran 106 i ddarparu / gwella darpariaeth trafnidiaeth gynaliadwy fel a ganlyn:

- Croesfan Twcan Newydd yn Ham Lane East, Llanilltud Fawr
- Goleuadau stryd newydd yn Cross Inn Lane, Y Bont-faen
- Goleuadau newydd yn isffordd Llwybr Gwartheg, Gwenfô
- Prosiect dynodi llwybrau'r Barri
- Cysgodfan feiciau newydd yn Ysgol Gynradd Y Bont Faen, Y Bont-faen
- Meinciau newydd yn Sain Nicolas, Sili a Gwenfô
- Gwelliannau i gerddwyr yn Buttrills Road, Y Barri.
- Gwelliannau i gerddwyr yn Borough Close, Y Bont-faen
- Cysgodfannau bysus newydd ym Mhlas Esyllt, Dinas Powys
- Cysgodfan fysus newydd yn St. Brides Way, Y Barri
- Goleuadau stryd newydd yn Heol yr Isffordd, Y Barri a goleuadau newydd yn y twnnel.

Cyfleusterau Addysgol:
Mae cyllid Adran 106 yn cyfrannu at sawl prosiect Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Ceir diweddariad isod:

- Ymestyn Ysgol Y Deri (Llyn Derw) - Prosiect datblygu ysgol newydd â 150 o leoedd. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau a bydd y cyfleuster newydd yn weithredol o fis Medi 2026.
- Prosiect ailddatblygu Ysgol Gyfun Gatholig Sant Richard Gwyn - Adeilad ysgol newydd â 1050 o leoedd i ddisgyblion ynghyd â Chanolfan Adnoddau Arbenigol 60 lle. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Ebrill 2024. Penodwyd prif gontractwr. Dechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Awst 2025 ac mae'n dod ymlaen yn dda. Bwriedir trosglwyddo Cam 1 (adeiladu) ym mis Rhagfyr 2027 a throsglwyddo Cam 2 (dymchwel ac ardaloedd allanol) ym mis Hydref 2028.
- Ysgol Iolo Morganwg – datblygiad ysgol newydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng ngogledd-orllewin y Bont-faen ar gyfer 420 o leoedd i ddisgyblion a 96 o leoedd meithrin rhan-amser. Penodwyd y prif gontractwr ar gyfer cyflawni contract cam dau a dechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Mai 2026. Cynhaliwyd digwyddiad i nodi dechrau'r gwaith ym mis Gorffennaf 2026 gyda Gweinidog Addysg Cymru. Bwriedir trosglwyddo ym mis Gorffennaf 2027.

Y tu allan i'r rhaglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, defnyddiwyd cyllid Adran 106 tuag at welliannau yn yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Sant Cyres – Canolfan Adnoddau Corfforol a Meddygol
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes – estyniad
- Ysgol Dewi Sant, Llanilltud Fawr – canopïau allanol newydd

Yn ogystal, mae cyllid Adran 106 wedi'i ymrwymo i'r cynlluniau newydd canlynol:

- Ysgol Gynradd Sain Tathan – canopi allanol newydd i wella gofod dysgu awyr agored ac ardaloedd chwarae awyr agored newydd
- Ysgol Iau Dinas Powys – canopi allanol newydd
- Ysgol Gynradd Sili – gwelliannau i'r ysgol bresennol

Cyfleusterau Cymunedol
Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfraniadau adran 106 i ddarparu / gwella cyfleusterau cymunedol fel a ganlyn:

- Cyfleusterau toiled hygyrch yn Hyb Cymunedol a Llyfrgell Sain Tathan.
- Cyfleusterau storio newydd, gwelliannau i'r ystafell ymolchi ac ail-leoli'r diffibriliwr yn The Gathering Place, Sain Tathan
- Gwelliannau mewnol yn Neuadd Glyndŵr, Penarth
- Arwyddion allanol newydd yn Llyfrgell a Chanolfan Weithgareddau Dinas Powys.
- Mainc newydd yn Sain Tathan
- Rac beiciau iau newydd, Parc Celtic Way, Y Rhws

Celf Gyhoeddus
Defnyddiwyd cyfraniadau celf gyhoeddus adran 106 i ddarparu'r prosiectau celf gyhoeddus canlynol yn 2025/26. Mae gweithio ar y cyd wedi chwarae rhan allweddol wrth gyflawni.

- Cwrt pêl-fasged / pêl-rwyd newydd wedi'i ddylunio gan artist a seddi cymunedol wedi'u dylunio gan artist yng Ngofod Cymunedol Murchfield, Dinas Powys (cynllun celf gyhoeddus / man agored cyhoeddus)
- Totemau wedi'u dylunio gan artist yn Ysgol Gynradd Sain Nicolas
- Gwaith celf gyhoeddus newydd yng Ngerddi Clare, Y Bont-faen
- Cerflun celf gyhoeddus newydd sy'n ymgorffori seddi a phlannu ynghyd â seddi ar wahân wedi'u dylunio gan artist i'w gosod mewn mannau agored cyhoeddus yn Gwêl Yr Ynys, Sili.

Mae gweithdai celf hefyd wedi cael eu cynnal yn yr Oriel Gelf Ganolog yn y Barri.

<u>Gweithredu Rhwymedigaethau Cynllunio yn 2025/26 – Rhwymedigaethau 'Mewn Nwyddau'</u>

2.7 Yn ogystal â chyfraniadau ariannol, mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda datblygwyr i gyflawni rhwymedigaethau 'mewn nwyddau' ar safleoedd datblygu. Er enghraifft, cafodd 19 o unedau tai fforddiadwy eu cwblhau/trosglwyddo yn

ystod y flwyddyn ariannol hon, a chafodd y mwyafrif eu sicrhau drwy gytundebau Adran 106.

Cyllid Grant Adran 106 - Diweddariad

2.8 Mae nifer o grantiau Adran 106 wedi'u rhoi i Grwpiau Cymunedol sy'n darparu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol gwerthfawr.

2.9 Yn 2025/26, mae cyfraniadau Adran 106 i gefnogi sawl cais wedi symud ymlaen, gan gynnwys gwelliannau yn y cyfleusterau cymunedol canlynol:

- The Gathering Place, Sain Tathan
- Hyb Cymunedol a Llyfrgell Sain Tathan
- Neuadd Glyndŵr, Penarth
- Llyfrgell a Chanolfan Weithgareddau Dinas Powys

3. Sut mae'r cynigion yn dangos tystiolaeth o'r Pum Ffordd o Weithio ac yn cyfrannu at ein Hamcanion Lles?

3.1 Hirdymor - Mae cyfraniadau Adran 106 yn ceisio sicrhau bod cymunedau cynaliadwy yn cael eu datblygu ym Mro Morgannwg, gan ddarparu cyfleoedd cyfartal i bawb o ran byw, dysgu, gweithio a chymdeithasu.

3.2 Atal - Bydd defnyddio cyfraniadau i gynyddu nifer y cartrefi cynaliadwy, fforddiadwy a ddarperir ym Mro Morgannwg yn atal digartrefedd ac yn darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel.

3.3 Integreiddio - Mae cyflawni rhwymedigaethau cynllunio yn ceisio sicrhau bod cymunedau newydd wedi'u hintegreiddio â chymunedau presennol.

3.4 Cydweithio - Mae'r Cyngor yn cydweithio ag Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref / Cymuned, adrannau mewnol a sefydliadau allanol fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyflawni cynlluniau gan ddefnyddio cyfraniadau Adran 106. Mae Cynlluniau Creu Lleoedd hefyd yn helpu i lywio'r angen am fuddsoddiad pellach yn y Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth.

3.5 Ymglymiad - Mae adrannau mewnol a sefydliadau allanol lluosog yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni cynlluniau gan ddefnyddio cyfraniadau Adran 106 mewn ffordd gyfannol.

4. Goblygiadau Newid Hinsawdd a Natur

4.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig a'r CCAau ategol yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio lleol ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy.

4.2 Defnyddir rhwymedigaethau cynllunio i liniaru a sicrhau gwelliannau o ganlyniad i ddatblygiadau newydd. Gall cytundebau Adran 106 sicrhau buddsoddiad mewn mesurau trafnidiaeth amgylcheddol a chynaliadwy.

4.3 Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfraniadau Adran 106 lle bo hynny'n briodol i wella'r bioamrywiaeth mewn mannau agored cyhoeddus trwy blannu blodau gwyllt, bylbiau a choed newydd.

4.4 Mae cyfraniadau Adran 106 hefyd wedi cefnogi'n ariannol y gwaith o ddarparu ysgol gynradd garbon sero-net gyntaf Cymru (ar waith) – Ysgol Gynradd Trwyn y De, yn flaenorol.

4.5 Bydd y CDLlN yn galluogi'r Cyngor i ystyried unrhyw bolisïau newydd posibl mewn perthynas â rhwymedigaethau cynllunio, megis seilwaith gwyrdd a newid yn yr hinsawdd.

5. Adnoddau ac Ystyriaethau Cyfreithiol

Ariannol

5.1 Sicrheir cyfraniadau ariannol drwy gytundebau Adran 106. Mae cytundeb Adran 106 yn gytundeb cyfreithiol rwymol rhwng perchennog tir, datblygwr a'r Cyngor. Mae cyfraniadau ariannol yn cael effaith gadarnhaol ar lawer o swyddogaethau'r Cyngor, gan gynnwys addysg, cyfleusterau cymunedol, mannau agored, priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus. Gellir defnyddio cyfraniadau ariannol hefyd fel arian cyfatebol i sbarduno arian ychwanegol, fel Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor.

Cyflogaeth

5.2 Nid oes unrhyw faterion staffio.

Cyfreithiol (gan gynnwys Cydraddoldeb)

5.3 Mae Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd gan Adran 12 Deddf Cynllunio ac Iawndal (1991) a Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd), yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio. Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth hon wrth sicrhau'r cyfraniadau hyn.

5.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu ein bod yn gweithio tuag at sicrhau Cymru fwy cyfartal o gymunedau cydlynus. Bydd cyflawni rhwymedigaethau tai fforddiadwy a chynllunio yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i'r ddyletswydd hon. Mae prosiectau celf gyhoeddus hefyd yn gwella'r amgylchedd adeiledig ac yn cyfrannu at wella lles diwylliannol Cymru.

6. Papurau Cefndir

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010

Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Bro Morgannwg (2011-2026)

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bro Morgannwg - Adroddiad Adolygu (Mai 2022)

Canllaw Cynllunio Atodol 'Tai Fforddiadwy'

Canllaw Cynllunio Atodol ‘Rhwymedigaethau Cynllunio’

Canllaw Cynllunio Atodol ‘Celf Gyhoeddus mewn Datblygiad Newydd’

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English